

---

## **Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr: Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol 2021-26**

Prisio gwasanaethau mynediad lleol cyfanwerthol yn  
Ardal Ddaearyddol 3 gydag Ymrwymiad gan BT i  
ddefnyddio rhwydwaith ffeibr

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 29 Gorffennaf 2020

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 16 Medi 2020

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

Ym mis Ionawr 2020, gwnaethom gynnig y dull y bwriadwn ei ddefnyddio i brisio gwasanaethau mynediad lleol cyfanwerthol (WLA) yn y DU ac eithrio Hull. Ar gyfer ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn llai cystadleuol – Ardal Ddaeryddol 3 – roedden ni'n cynnig cael prisiau ar sail cost gan ddefnyddio dull sylfaen asedau rheoleiddiol (RAB) a fyddai'n caniatáu i BT adennill unrhyw fuddsoddiadau mewn rhwydweithiau ffeibr y mae'n eu gwneud.

O dan y dull RAB arfaethedig, byddai costau buddsoddi cyflwyno rhwydwaith ffeibr yn cael eu hychwanegu at sylfaen asedau BT ac yn cael eu hadennill ar draws yr holl gwsmeriaid, ffeibr a chopr, yn Ardal 3.

Ers cyhoeddi ein cynigion ym mis Ionawr, mae Openreach wedi ymrwymo i ymestyn ei rwydwaith ffeibr i 3.2 miliwn eiddo yn Ardal 3. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein dull arfaethedig o reoleiddio yn Ardal 3, yng ngoleuni'r ymrwymiad hwn.

## Yr hyn rydym ni'n ei gynnig

Ym mis Ionawr, fe wnaethom nodi manylion dull RAB ôl-adeiladu, lle mae prisiau'n cael eu gosod i adfer cost y rhwydwaith copr ond y caniateir iddynt gynyddu wrth i BT sefydlu rhwydwaith ffeibr. Fodd bynnag, roeddem yn ffafrio dull RAB rhagolygol, petai Openreach yn barod i ymrwymo i adeiladu ffeibr yn fasnachol yn Ardal 3 ar raddfa ddigonol.

O dan y dull gweithredu rhagolygol, rydym yn gosod cap pris am y cyfnod rheoli ar ei hyd, sy'n cynnwys cyfraniad at adennill costau buddsoddi mewn ffeibr ar sail ymrwymiad i gyflwyno lefel benodol o ddarpariaeth ffeibr. Gwnaethom nodi bod Openreach wedi awgrymu ymestyn y dull gweithredu arfaethedig o godi ffioedd am wasanaethau WLA sy'n rheoli yn Ardal Ddaeryddol 2 i Ardal 3, drwy fynegeo gwasanaethau copr lled band hyd at 40 Mbit yr eiliad/llwytho i lawr, 10 Mbit yr eiliad/llwytho i fyny (40/10) i chwyddiant. Roeddem yn cydnabod y gallai fod manteision ychwanegol o ddefnyddio dull prisio cyson ar draws Ardal 2 ac Ardal 3. Fodd bynnag, er mwyn bwrw ymlaen â hyn, gwnaethom egluro y byddai arnom angen ymrwymiad gan BT i adeiladu rhwydwaith ffeibr yn Ardal 3.

Ym mis Mehefin 2020, ymrwymodd Openreach i adeiladu ffibr yn fasnachol (h.y. heb gymhorthdal cyhoeddus) i o leiaf 3.2 miliwn eiddo (yn gronns) yn Ardal 3 erbyn diwedd 2025/26.

**Yng ngoleuni'r ymrwymiad hwn, rydym yn ymgynghori ar fabwysiadu dull RAB rhagolygol yn Ardal 3 drwy fynegeo gwasanaethau copr lled band hyd at 40/10 a chaniatáu hyblygrwydd prisio ar gyfer gwasanaethau cyflymach.**

## Y camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 16 Medi 2020. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein penderfyniad terfynol ynghylch yr Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol erbyn 31 Mawrth 2021.